**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

1 Awst 2011

Annwyl gyfaill

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

Yn gymorth i'w ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar unrhyw un o'r materion a ganlyn neu unrhyw gyfuniad ohonynt:

- effeithiolrwydd y contract fferyllfeydd cymunedol o ran ehangu'r cyfraniad a wneir gan y fferyllfeydd hyn i wasanaethau iechyd a lles;
- y graddau y mae byrddau iechyd lleol wedi manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y contract i ehangu gwasanaethau fferyllol drwy ddarparu gwasanaethau 'gwell', ac enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus;
- maint y gwasanaethau 'gwell' a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol a pha mor ddigonol ydynt;
- potensial fferyllfeydd cymunedol i ddarparu rhagor o wasanaethau, ynghyd â dosbarthu meddyginiaethau ac offer y GIG, gan gynnwys y posibilrwydd o gael cynlluniau ar gyfer mân anafiadau;
- yr effaith gyfredol a'r effaith bosibl ar y galw am wasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau gofal eilaidd y GIG os bydd fferyllfeydd

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

cymunedol yn ehangu eu gwasanaethau, ac unrhyw arbedion cost a allai ddeillio o hyn;

– y cynnydd a welir o ran y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu gwasanaethau fferyllfeydd cymunedol.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, dylech ddarparu disgrifiad cryno o'r rôl y mae eich sefydliad yn ei chwarae.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Saesneg ac yn Gymraeg. Bydd yn ystyried yr ymatebion sy'n dod i law ac yn cynnal sesiynau ar gyfer casglu tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref.

Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth, dylech anfon copi digidol o'ch cyflwyniad at HSCCommittee@wales.gov.uk. Fel arall, gallwch anfon copi caled at Glerc y Pwyllgor, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn: Clerc y Pwyllgor, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai eich cyflwyniadau gyrraedd erbyn **dydd Gwener 23 Medi 2011**. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rhai sydd ar y rhestr ddosbarthu atodol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr ymlaen at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ond sydd â chyfraniad i'w wneud i'r adolygiad, o bosibl. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda gwahoddiad agored i gyflwyno safbwyntiau.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu awgrymiadau ar ei ddulliau o weithio a phynciau posibl ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol ar sail barhaus.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Ond, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd yn y gorffennol wedi'i thynnu gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i ddata personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, dylech nodi'n glir pa rannau na ddylid eu datgelu, ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

**Ymgyngoreion**

**Byrddau Iechyd**
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

**Ymddiriedolaethau Iechyd**
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Darparwyr Gofal Iechyd**
Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain
Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol Cymru
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
Cymdeithas Rheolwyr Deintyddfeydd Prydain
Cymdeithas Ddeieteg Prydain
Cymdeithas Feddygol Prydain
Cymdeithas Awdioleg Prydain
Cymdeithas Deintyddiaeth Bediatrig Prydain
Cymdeithas Anabledd ac Iechyd y Geg Prydain
Prosiect Datblygu Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro
Canolfan Byw'n Annibynnol
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Y Gymdeithas Cynllunio Teulu
Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Cymdeithas y Nyrsys Newyddenedigol
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Brenhinol y Bydwragedd
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Optometreg Cymru
Cymdeithas Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymru
Conffederasiwn GIG Cymru

**Cynghorau Iechyd Cymuned**
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
Cyngor Iechyd Cymuned Sir Drefaldwyn

**Cynghorau**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Asiantaethau Swyddogol**
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW)
Comisiynydd Plant Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Her Iechyd Cymru
Comisiwn Iechyd Cymru
Y Ganolfan Ymchwil i Gyfathrebu ar Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Atebion Iechyd Cymru
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Y Sefydliad Iechyd Gwledig
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol
Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfa Archwilio Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Cynghorau Gweithredu Gwirfoddol**
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Interlink
Mantell Gwynedd
Medrwn Môn
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd PortTalbot
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Cynghrair Gwirfoddol Tor-faen
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

**Y Sector Gwirfoddol**
Age Cymru
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
Cymdeithas Alzheimers'
Cynghrair Arrhythmia
Gofal Arthritis yng Nghymru
ASH Cymru
Cymdeithas Spina Bifida Hydrocephalus (ASBAH)
Cymdeithas Lles Plant yn yr Ysbyty
Awtistiaeth Cymru
Barnardos Cymru
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru
Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru
Yr Asiantaeth Cyffuriau ac Alcohol (CAIS)
Cymdeithas Orthopedig Prydain
Cynhalwyr Cymru
Canolfan Cymorth a Chyngor ar gyfer Pobl Anabl
Changing Faces
Plant yng Nghymru
Chwarae Teg
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cymunedau yn Gyntaf
CONNECT Cyngor Hawliau Anabledd
Cyswllt Teulu Cymru
Croesffyrdd – Gofalu am Ofalwyr
Gofal Galar Cruse Cymru
Cymdeithas Byddar Cymru
Diabetes UK
Prosiect Cyngor ynghylch Anabledd
Plant Anabl yn Cyfri
Y Sefydliad Byw i Bobl Anabl (Disabled Living Foundation)
Anabledd Cymru
Cymdeithas Syndrom Down
Gofal Cymru
Hafal
Sefydliad Joseph Rowntree
Anabledd Dysgu Cymru

Cymorth Cancr Macmillan
Mencap Cymru
Y Sefydliad Iechyd Meddwl
Iechyd Meddwl Cymru
Merched y Wawr
Mind Cymru
Undeb y Mamau
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru
Mudiad Ysgolion Meithrin
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched
NSPCC
Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn
1000 o Fywydau a Mwy
Ffederasiwn y Rhieni
Cymdeithas Clefyd Parkinson
Cymdeithas Cleifion
Platform 51
Y Gymdeithas Arennol
RNIB Cymru
RNID Cymru
Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Scope Cymru
Sense Cymru
SNAP Cymru
Stonewall Cymru
Ymddiriedolaeth Terrence Higgins Cymru
Cymdeithas y Plant
Cyngor Pobl Anabl y DU
Voices From Care Cymru
Cynghrair Cynhalwyr Cymru
Cyngor Cymru i'r Deillion
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Grwpiau Cyfranogiad Cadarhaol Rhwydwaith HIV Cymru
Pensiynwyr Cymru
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
Y Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl

**Cyrff Fferyllol**
Grŵp Diwydiant Cymru o Gymdeithas Brydeinig y Diwydiant Fferyllol
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Company Chemists' Association (CCA)
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Institute of Pharmacy Management (IPM)
Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol (NPA)
Pharmacy Practice Research Trust (PPRT)
Pwyllgor Negodi'r Gwasanaethau Fferyllol (PSNC)
Cymdeithas y Fferyllwyr Gofal Sylfaenol
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr
The Association of Independent Multiple Pharmacies (AIMp Ltd)
Cymdeithas y Technegwyr Fferyllol (APTUK)
Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd (GHP)

The Pharmacists' Defence Association (PDA)
Y Grŵp Datblygu Strategol ar Wasanaethau Fferyllol
Cymdeithas Fferyllfeydd Clinigol y Deyrnas Unedig (UKCPA)

**Academia**

Y Ganolfan Gwybodeg Iechyd
Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru